O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif 246 (Cy.47)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 45 (Ynysforgan) a Chyffordd 48 (Yr Hendy)) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro a Chaniatáu Traffig ar y Llain Galed) 2011

Gwnaed	*4 Chwefror 2011*
Yn dod i rym	*13 Chwefror 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Draffordd Llundain - y De (yr M4) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y draffordd") wedi eu bodloni y dylid gwahardd neu ganiatáu traffig ar ddarnau penodedig o'r draffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 13 Chwefror 2011 a'i enw yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 45 (Ynysforgan) a Chyffordd 48 (Yr Hendy)) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro a Chaniatáu Traffig ar y Llain Galed) 2011.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer y gwasanaethau brys, neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period")* yw'r cyfnod hwnnw sy'n cychwyn am 20:00 o'r gloch ar 13 Chwefror 2011 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu tynnu oddi yno'n derfynol;

ystyr "y darn(au) o'r draffordd" *("the length(s) of the motorway")* yw'r darnau hynny o'r draffordd a bennir yn Atodlenni 1 i 3 i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu at Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei yrru ar y darn o'r draffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, ar y darnau o'r draffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, bydd y llain galed gyfagos i'r gerbytffordd tua'r dwyrain ar y darn o draffordd a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn ar gael i'w defnyddio fel lôn i draffig.

6. Mae Rheoliad 5 o Reoliadau Traffig Traffyrdd (Cymru a Lloegr) 1982**(3)**, a darpariaethau Rheoliad 9 o'r Rheoliadau hynny sy'n ymwneud â gyrru cerbydau wedi eu hatal i'r graddau y maent yn gymwys i'r llain galed sy'n cyffinio â'r darn o'r gerbytffordd tua'r dwyrain y draffordd a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn a chyfarwyddir traffig i defnyddio'r llain galed benodedig.

7. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad a'r cyfyngiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

8. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 6 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 4 Chwefror 2011

J COLLINS
Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyflenwi Seilwaith
Llywodraeth Cynulliad Cymru

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26) ac Atodlen 1 iddi.

(2) Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(3) O.S. 1982/1163

YR ATODLENNI

Y darnau o draffordd yr M4 yn Ninas a Sir Abertawe a Sir Gaerfyrddin.

ATODLEN 1

Y darn o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 48 (Yr Hendy).

ATODLEN 2

Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r gorllewin y draffordd wrth Gyffordd 45 (Ynysforgan) sy'n ymestyn o drwyniad ffisegol y ffordd ymadael tua'r gorllewin i drwyniad ffisegol y ffordd ymuno tua'r gorllewin.

Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r dwyrain y draffordd wrth Gyffordd 45 (Ynysforgan) sy'n ymestyn o drwyniad ffisegol y ffordd ymadael tua'r dwyrain i drwyniad ffisegol y ffordd ymuno tua'r dwyrain.

ATODLEN 3

Y darn hwnnw o'r llain galed sy'n gyfagos i'r gerbytffordd tua'r dwyrain y draffordd sy'n ymestyn o bwynt 250 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt Cyffordd 48 (Yr Hendy) i bwynt 300 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt pont afon Llwchwr.